GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update






*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 17: wythnos **10/05/2021**

## Cynnydd Wythnosol (5 - 10 Mai)

**Pleser yw gyhoeddi ein bod ni bellach wedi cyrraedd y garreg filltir arbennig o roi hanner miliwn o frechiadau.** Rydym bellach wedi rhoi cyfanswm o 514,091 o frechlynnau (cyfuniad o ddosau 1af ac 2il) ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd.

## Canllawiau JCVI Newydd

Bydd unigolion heb eu brechu o dan 40 oed (heb unrhyw ffactorau risg clinigol) yn cael cynnig y brechlyn Pfizer ar gyfer dosau cyntaf yn ein holl Ganolfannau Brechu Torfol o Ddydd Gwener 7 Mai 2021, yn unol â chanllawiau diweddaraf JCVI.

Mae achosion o geulo gwaed gyda chyfrif o blatennau isel yn parhau i fod yn brin iawn, a chredir mai ymateb i'r brechiad cyntaf yw hyn. Mae'r penderfyniad i roi'r gorau i ddefnyddio brechlyn AZ mewn pobl 30-39 oed, nad oes ganddynt nodweddion risg Clinigol sy'n eu rhoi mewn mwy o berygl o glefyd COVID-19 difrifol, dylid cynnig dewis arall yn lle brechlyn COVID-19 Oxford AstraZeneca (AZ), lle bo hynny'n bosibl a dim ond lle mae hyn ar gael a dim ond os nad yw hyn yn achosi unrhyw oedi sylweddol o ran cael ei frechu. Mae hyn eisoes yn wir am oedolion o dan 30 oed.

Gall pawb sydd wedi derbyn dos cyntaf o'r brechlyn AZ dderbyn ail ddos o'r un math, waeth beth yw eu hoed, yn unol â chyngor JCVI. Ar hyn o bryd, mae JCVI o'r farn nad oes unrhyw bryderon diogelwch wedi'u nodi ar gyfer y digwyddiadau andwyol eithriadol o brin hyn yn dilyn ail ddos o'r brechlyn AZ. Bydd yr ail ddos yn bwysig ar gyfer amddiffyniad hirach yn erbyn firws COVID-19.

Mae brechlyn AZ eisoes wedi arbed miloedd o fywydau, ac mae'n parhau i fod yn ddiogel ac effeithiol ar gyfer y rhan fwyaf o'r boblogaeth. Ers mis Ionawr, mae dros 1 miliwn o bobl wedi cael brechlyn AZ.

Os oes gan bobl bryderon, gallant eu trafod gyda brechwr neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol, fydd â'r holl wybodaeth ac a fydd yn gallu rhoi cyngor.

## FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 10/05/2021)

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

**514,091**

**Cyfanswm y dos cyntaf 357,426**

**Cyfanswm yr ail ddos 156,665**

| | | |
|---|---|---|
| **Pobl 70 oed a'n hŷn** | 96% | 91% |
| **Pobl 65-69 mlwydd oed** | 94% | 74% |
| **Grŵp 6 (Agored i Niwed)** | 87% | 14% |
| **Pobl 60-64 mlwydd oed** | 93% | 23% |
| **Pobl 55-59 mlwydd oed** | 91% | 20% |
| **Pobl 50-54 mlwydd oed** | 88% | 17% |
| **Pobl 40-49 mlwydd oed** | 84% | -- |
| **Pobl 30-39 mlwydd oed** | 57% | -- |

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*

## Apwyntiadau

Os ydych yn 30 oed a hŷn ac wedi methu eich apwyntiad ar gyfer dos cyntaf COVID-19, llenwch y ffurflen ar ein gwefan: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/aged-30-and-above-and-not-received-your-covid-19-vaccination-appointment/.

Sicrhewch fod eich manylion yn gyfredol gyda'ch practis meddyg teulu cofrestredig er mwyn i wahoddiadau gael eu hanfon i'r cyfeiriad cywir.


## Sgil-effeithiau

Mae sgil-effeithiau difrifol yn brin iawn. Fodd bynnag, os byddwch chi'n profi unrhyw rai o'r canlynol 4 diwrnod i 4 wythnos ar ôl cael brechiad, dylech geisio cyngor meddygol ar unwaith:

- Cur pen newydd, poenus iawn, sydd ddim yn gwella ar ôl cymryd cyffuriau lleddfu poen arferol, neu sy'n gwaethygu
- Cur pen sy'n gwaethygu wrth orwedd neu blygu drosodd
- Cur pen anarferol, yn ogystal ag:
- Amhariad i'r golwg, cyfog a chwydu
- Anawsterau gyda'ch lleferydd
- Gwendid, syrthni neu drawiadau
- Cleisio newydd ar ffurf sbotiau heb eglurhad neu waedu
- Byr eich gwynt, poen yn y frest, coesau chwyddedig neu boen parhaus yn y bol

Os ydych eisoes wedi cael dos cyntaf o frechlyn AstraZeneca heb ddioddef y sgil-effeithiau prin iawn hyn, dylech gwblhau'r cwrs gydag ail ddos o AstraZeneca.

Am fwy o wybodaeth ac i weld Cwestiynau Cyffredin, ewch i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/patient-information/covid-19-vaccination-and-blood-clotting/



## Stori Newyddion Da

Mae ein Nyrsys Ardal a'n Tîm Ymateb Brys wedi bod yn gweithio'n galed i ddarparu 2ail ddosiau o frechlynnau i gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi o fewn cymunedau ein Bwrdd Iechyd. Bellach, maen nhw wedi brechu 46% o'r bobl sy'n gaeth i'w cartrefi.

Dywedodd Eve Hancocks, aelod staff ar gyfer tîm nyrsio ardal Blaenau Gwent *"Mae'n fraint cael bod yn rhan o'r tîm sy'n helpu i frwydro yn erbyn y feirws hwn."*

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/




Rydym yn hynod falch o'n timau brechu sy'n gweithio'n eithriadol o galed i roi brechiadau mor ddiogel a chyflym â phosibl. Hoffem ddiolch i'r cyhoedd am eu hamynedd, dealltwriaeth a chefnogaeth barhaus wrth i ni weithio drwy ein rhestrau o flaenoriaeth.

## Trefn Brechlynnau

| | |
|---|---|
| 80 oed a hŷn | Meddygfeydd Meddyg Teulu |
| 72-79 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 70-71 oed | Meddygfeydd |
| Grŵp 4 | Meddygfeydd |
| 65-69 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 60-64 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 55-59 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 52-54 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 50-51 oed | Meddygfeydd |
| 25-49 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| Yn Gaeth i'r Tŷ | Timau Symudol |
| Grŵp 6 | Meddygfeydd |